**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**6 MEDI 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 6 Mehefin, 2017.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Ian Dunbar a Dave Hughes.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd David Williams ar gyfer eitem rhaglen 6.1 (056694)
Y Cynghorydd Chris Dolphin ar gyfer eitem rhaglen 6.2 (057185)

**ARSYLWYR:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gynllunwyr, Cyfreithiwr ac Arweinydd Tîm - Swyddog Pwyllgorau.

**23. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**24. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac fe'u hatodwyd i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir Y Fflint. http://modgov:9070/documents/s44891/Late%20Observations.pdf

**25. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**26. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Roedd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) yn argymell bod eitem rhaglen rhif 6.3 - Cais Llawn – Codi Estyniad Unllawr i Ochr a Thu Ôl Annedd yn 18 Ffordd Moorfield, Penarlâg yn cael ei ohirio. Esboniodd bod rhai o'r Aelodau wedi gweld yr eiddo o'r ardd drws nesaf ar yr ymweliad safle, a rhai heb. Ychwanegodd yr Uwch Gyfreithiwr bod diffyg cysondeb, yn nhermau pa Aelodau o'r Pwyllgor oedd wedi gweld safle'r cais o'r ardd drws nesaf yn ystod yr ymweliad safle, a bod hyn wedi digwydd yn absenoldeb y Cadeirydd. O dan yr

amgylchiadau cafwyd cyngor bod yr eitem yn cael ei gohirio fel bod ymweliad safle arall yn cael ei gynnal a bod Aelodau'r Pwyllgor yn aros efo'i gilydd ac ym mhresenoldeb y Cadeirydd yn ystod yr ymweliad hwnnw. Argymhellwyd bod yr eitem yn cael ei hystyried yn y cyfarfod fis Hydref pan fydd ymweliad safle arall yn cael ei drefnu.

Mewn pleidlais, cytunwyd bod yr eitem yn cael ei gohirio.

**PENDERFYNWYD:**

Eitem rhaglen rhif 6.3 - Cais Llawn – Codi Estyniad Unllawr i Ochr a Thu Ôl Annedd yn 18 Ffordd Moorfield, Penarlâg i'w ohirio.

**27. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Y penderfyniad i'w gofnodi fel y dangosir ar yr amserlen Cais Cynllunio sydd wedi'i hatodi fel atodiad, yn cynnwys penderfyniadau apêl.

**28. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 17 aelod o'r cyhoedd yn bresennol a dim un aelod o'r wasg.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.52pm)

...............................
**Cadeirydd**

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu darlledu dros y we, ac i'w gweld drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 6 MEDI, 2017**

| RHIF YR EITEM | TREF/ CYNGOR CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056694 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais llawn – adeiladu 32 annedd gan gynnwys pwynt mynediad newydd i gerbydau, man agored cyhoeddus, lleoedd parcio a thirlunio ar dir ar ffordd Penarlâg, Penyffordd. | Roedd Mr. M. Krassowski, asiant yr ymgeisydd yn siarad o blaid y cais.<br><br>Roedd Mr. A. Wight yn siarad yn erbyn y cais.<br><br>Roedd y Cynghorydd David Williams, fel Aelod lleol, yn siarad yn erbyn y cais. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad y swyddog ar y sail ganlynol:<br><br>• y tu allan i ffin yr anheddiad yng nghefn gwlad agored a byddai'n arwain at golli tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;<br>• bod y cynnig yn cynrychioli niwed sylweddol, yn tanseilio polisïau lleol a chenedlaethol a gynlluniwyd i ddiogelu cefn gwlad agored a chymunedau gydag agweddau gwledig;<br>• yr effaith ar yr ymagwedd tuag at yr anheddiad; a<br>• byddai'r bwriad yn erydu cymeriad gwledig ac edrychiad y safle a'r ardal leol gyda'r niwed sy'n deillio o gymeriad ac ymddangosiad y rhan |
| 057185 | Cyngor Cymuned Chwitffordd | Cais amlinellol ar gyfer codi 1 annedd ar dir ger Bryneithin, Gorsedd | Siaradodd Mr. P. Erasmus, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Roedd y Cynghorydd Chris Dolphin, fel Aelod Lleol, yn siarad o blaid y cais. | Cafodd y caniatâd cynllunio ei wrthod yn unol ag argymhellion y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | TREF/ CYNGOR CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057070 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn – Codi estyniad unllawr i ochr a chefn annedd yn 18 Moorfield Road, Penarlâg. | I'w ohirio tan fis Hydref. | I'w ohirio tan fis Hydref. Gwneir ymweliad safle pellach. |
| 056692 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais i ddileu amod Adran 106 ar ôl rhoi caniatâd cynllunio (P/12/24844) yn Bannel House, Chester Road, Penymynydd. | | Dileu amod Adran 106 yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057084 | Cyngor Cymuned Queensferry | Cais Llawn – Estyniadau ac addasiadau i greu tŷ 11 ystafell wely mewn amlbreswyliaeth yn Pentre House, Ffordd Caer, Pentre | Roedd Mr. N. Gittins, yr ymgeisydd, yn siarad o blaid y cais. | Cafwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhellion y swyddog ac yn ddarostyngedig i amod ychwanegol bod cynllun yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig o ran cadw sbwriel, sydd angen chymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyngor cyn i'r datblygiad ddechrau. |
| 057278 | Cyngor cymuned Pen-y-ffordd | Cais Llawn – Codi Estyniad Llawr Cyntaf yn 1 William Close, Pen-y-ffordd | | Rhoi caniatâd cynllunio yn unol â'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad, ac yn unol hefyd ag argymhellion y swyddog. |
| **Penderfyniadau Apeliadau** | | | | |
| 055827 | Amh. | Apêl gan Mr. Peter Barlow yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i ganiatáu'r apêl hon. |

| RHIF YR EITEM | TREF/ CYNGOR CYMUNED | SAFLE / CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer codi sied newydd yn Chwarel Maes Mynan, Ffordd Dinbych, Afonwen – Caniatawyd | | |
| 055866 | Amh. | Apêl gan Mr. J Davies yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer codi un annedd ar dir yn yml Bryn Goleu, Rhydymwyn Road, Gwernaffield – Gwrthodwyd. | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon. |
| 055924 | Amh. | Apêl gan Mr. S. Thomas yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun amlinellol i adeiladu un annedd ar dir cyffiniol â Chartref Nyrsio Coed Duon, Halkyn Road, Treffynnon – Gwrthodwyd. | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon. |
| 056201 | Amh. | Apêl gan Mr. C. Jones yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i godi estyniad llawr cyntaf dros fyngalo presennol yn 86 Windsor Drive, y Fflint – Caniatawyd. | Amh. | Nodi penderfyniad yr Arolygydd i ganiatáu'r apêl hon. |